

## Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 – Cwestiynau ac Atebion

<b>Ymholiadau cyffredinol</b>	
Beth yw pwrpas Deddf 2015?	Sefydlu system reoleiddio newydd ar gyfer sefydliadau addysg uwch a darparwyr addysg uwch eraill yng Nghymru gyda chynllun ffioedd a mynediad wedi'i gymeradwyo gan CCAUC. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau rheoleiddiol newydd i CCAUC mewn perthynas â therfynau ffioedd, ansawdd addysg a rheolaeth ariannol.
Pa bwerau fydd gan CCAUC i sicrhau bod darparwyr addysg uwch yn rhoi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar waith?	Gall CCAUC roi ystod eang o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar waith drwy gyllido darparwyr addysg uwch yng Nghymru. Hefyd, mae gan CCAUC adnoddau rheoleiddiol a all helpu gyda rhoi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynediad teg, ansawdd addysg a chynaliadwyedd ariannol ar waith.
Sut mae Deddf 2015 yn effeithio ar Sicrwydd Ansawdd yng Nghymru?	Mae Deddf 2015 yn datgan pwerau newydd ar gyfer CCAUC mewn perthynas ag asesu ansawdd yr addysg a ddarperir yng Nghymru gan neu ar ran sefydliad a reoleiddir. Darperir addysg ar ran sefydliadau a reoleiddir os yw'r addysg honno'n rhan o gwrs a ddarperir yn bennaf yng Nghymru (darpariaeth freinio).
A fydd angen cynlluniau ffioedd o hyd?	Bydd rhaid i sefydliadau sy'n dymuno i'w cyrsiau gael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cefnogaeth myfyrwyr gyflwyno cynllun ffioedd a mynediad i'w gymeradwyo gan CCAUC. Bydd cynlluniau ffioedd a mynediad yn cyfrif am gyfanswm y ffioedd y gall sefydliad a reoleiddir eu codi am ei gyrsiau israddedig a TAR. Roedd y cynlluniau ffioedd a gyflwynwyd o dan Ddeddf 2004 yn caniatáu i sefydliadau godi mwy na'r terfyn ffi sylfaenol o £4,000.
Beth fydd cynllun ffioedd a mynediad ei angen?	Wrth ymgeisio am bob cynllun ffioedd a mynediad mae'n rhaid i sefydliad ddangos ei fod yn sefydliad sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru ac yn elusen. Bydd hefyd yn gorfod darparu gwybodaeth am ei ymarferoldeb ariannol, y trefniadau ar gyfer trefnu a rheoli materion ariannol y sefydliad, ac ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran y sefydliad.
A fydd sefydliadau a reoleiddir yn dal i orfod defnyddio canran o'u hincwm o ffioedd ar gyfle cyfartal ac ar hybu addysg uwch?	Bydd disgwyl i sefydliadau a reoleiddir fuddsoddi cyfran ofynnol o incwm eu ffioedd mewn cyfle cyfartal a hybu addysg uwch. Bydd yn ofynnol i sefydliadau a reoleiddir a oedd â chynlluniau ffioedd yn flaenrol ddefnyddio'r lefelau buddsoddi presennol fel sylfaen ar

	<p>gyfer buddsoddi yn y dyfodol. Ar gyfer ymgeiswyr eraill, mae CCAUC yn disgwyl buddsoddiad sydd rhwng 14 a 17% o gyfanswm incwm y ffioedd, i'w gytuno gyda CCAUC yng ngoleuni ei ymrwymadau cynlluniau ffioedd a mynediad.</p>
<p>Sut gall sefydliad wneud cais am dderbyn arian cyhoeddus?</p>	<p>Pan fydd y system reoleiddiol newydd yn gwbl weithredol, ni fydd y diffiniadau presennol o sefydliadau a 'gyllidir yn gyhoeddus' a sefydliadau 'na chyllidir yn gyhoeddus' yn berthnasol mwyach. O ganlyniad i'r newid hwn, bydd rhaid i'r sefydliadau hynny sydd wedi cael eu cyllido'n gyhoeddus a heb fod angen gwneud cais blaenorol i CCAUC am gymeradwyo cynllun ffioedd o dan drefn Ddeddf 2004, ystyried a ydynt yn dymuno gwneud cais am gymeradwyaeth o dan y system reoleiddiol newydd.</p>
<p>Beth yw'r gwahaniaeth rhwng dynodiad awtomatig a dynodiad penodol?</p>	<p>Rhaid i sefydliadau sy'n dymuno i'w cyrsiau israddedig a TAR gael eu dynodi ar gyfer cefnogaeth myfyrwyr ymgeisio i CCAUC am gynllun ffioedd a mynediad. Bydd derbyn cynllun ffioedd a mynediad yn arwain at ddynodi'r cyrsiau i gyd yn awtomatig. Rhaid i sefydliadau sy'n dymuno i rai o'u cyrsiau gael eu dynodi ar gyfer cefnogaeth myfyrwyr ymgeisio i Lywodraeth Cymru am ddynodiad penodol (neu fesul cwrs) i'w cyrsiau.</p>
<p>Beth yw'r ffi hyfforddiant fwyaf y gall darparwyr addysg uwch yng Nghymru ei chodi?</p>	<p>Gall sefydliadau a reoleiddir godi hyd at uchafswm o £9,000. Rhaid cadw at yr holl lefelau ffioedd y cytunir arnynt mewn cynllun ffioedd a mynediad.</p>
<p><b>CCAUC yn gweithio gyda phartïon sydd â diddordeb</b></p>	
<p>Beth mae CCAUC yn ei wneud i baratoi'n well y rhai a fydd yn gorfod darparu cynllun ffioedd a mynediad?</p>	<p>Mae CCAUC wedi ymgynghori'n eang ynghylch y dogfennau perthnasol i'n swyddogaethau rheoleiddiol newydd. Cynhaliodd CCAUC weithdai ar 15 Gorffennaf 2015 a 2 Tachwedd 2015 gyda'r sefydliadau a reoleiddir ar hyn o bryd, gan roi sylw i'w fwriadau i ddatblygu gweithdrefnau ar gyfer y swyddogaethau rheoleiddiol newydd, gyda digwyddiad ymgynghori ffurfiol ar 22 Chwefror 2016.</p>

<p>Faint o ran mae Colegau AB yn ei chwarae yn y broses hon?</p>	<p>Cynhaliwyd digwyddiad ar wahân ar gyfer Colegau Addysg Bellach yng Nghymru ar 2 Rhagfyr 2015 i drafod goblygiadau swyddogaethau rheoleiddiol newydd CCAUC i Golegau Addysg Bellach.</p> <p>Cynhaliodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) weithdy ar 19 Mai 2015 ar gyfer colegau AB sydd â diddordeb mewn ymgymryd ag adolygiad asesu ansawdd i baratoi ar gyfer cyflwyno cynlluniau ffioedd. Gwahoddwyd yr holl SAB i'r gweithdy. Roedd hwn yn ychwanegol at y briff a ddarparwyd i'r sefydliadau unigol cysylltiedig. Bwriedir cynnal gweithdy pellach ar 3 Mai ynghylch y trefniadau asesu ansawdd newydd.</p> <p>Mae swyddogion CCAUC wedi adrodd yn ôl ar faterion perthnasol i swyddogaethau rheoleiddiol newydd CCAUC yng nghyfarfodydd rhwydwaith AU yn AB Colegau Cymru. Ar gyfer unrhyw ymholiadau penodol sy'n berthnasol i gynlluniau ffioedd a mynediad, cysylltwch â <a href="mailto:RegulationAdvice@hefcw.ac.uk">RegulationAdvice@hefcw.ac.uk</a> a bydd swyddog gyda CCAUC yn delio â'ch ymholiad.</p>
<p>Pa sefydliadau cynrychioli myfyrwyr mae CCAUC yn ymgynghori â hwy?</p>	<p>Mae CCAUC yn cyfarfod NUS Cymru ddwywaith y flwyddyn fel cynrychiolydd mwyafrif y myfyrwyr addysg uwch yng Nghymru ac mae'n datblygu Memorandwm o Ddealltwriaeth gydag NUS Cymru yng ngoleuni ei swyddogaethau rheoleiddiol. Hefyd mae CCAUC yn ymgynghori'n gyhoeddus wrth ddatblygu ei brosesau ar gyfer gweithredu ei swyddogaethau rheoleiddiol, sy'n galluogi i unrhyw sefydliad i fyfyrwyr ymateb.</p>
<p>A fydd CCAUC yn gweithio gyda chyrrff rheoleiddiol eraill?</p>	<p>Mae gan CCAUC femorandwm o ddealltwriaeth (MODd) gyda'r Comisiwn Elusennau. Mae CCAUC yn trafod datblygiad MODd gyda Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ac yn llunio MODd terfynol gydag Estyn. Mae CCAUC wedi dechrau trafod perthynas waith barhaus gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.</p>
<p><b>Cydweithredu a phartneriaethau</b></p>	
<p>Pa ddarpariaeth ddylid ei chynnwys mewn cynllun ffioedd a mynediad gan sefydliad?</p>	<p>Mae CCAUC yn disgwyl y bydd sefydliadau sy'n ymgeisio am gynlluniau ffioedd a mynediad yn cyflwyno gwybodaeth am drefniadau ansawdd yr holl addysg mae'n ei darparu ac a ddarperir ar ei ran (h.y. nid dim ond y ddarpariaeth AU). Mae hyn yn berthnasol i addysg a ddarperir ar bob lefel yn y</p>

	Fframwaith Credydau a Chymwysterau ar gyfer Cymru; yr addysg a ddarperir gan yr holl bartneriaid breinio, is-gwmnïau a darparwyr elusennol amgen; a heb ystyried lleoliad (e.e. yr addysg a ddarperir yng Nghymru, yng ngweddill y DU a thramor).
Ydi CCAUC mewn sefyllfa i benderfynu a yw partneriaeth yn ddilysiad neu'n fasnachfrait?	Ceir enghreifftiau o farn wahanol ymhlith partneriaid ar reoli'r cwrs felly mae angen datgan mecanwaith ar gyfer craffu ar hyn. Mae CCAUC yn dal i weithio drwy oblygiadau hyn. Mae CCAUC yn cadw'r hawl i ofyn am gopïau o'r cytundebau perthnasol.
Pa bartneriaethau ddylid eu cynnwys yn nhempledi'r cynllun ffioedd?	Byddem yn argymhell bod y brifysgol, oddi mewn i'r cais cynllun ffioedd a mynediad, yn dynodi mewn manau perthnasol statws y trefniadau partneriaeth.  At bwrpas dadansoddi'r cynllun ffioedd a mynediad, bydd rhaid i CCAUC ddeall yn glir statws y trefniadau a'r goblygiadau ar draws pob adran o'r cais, gan gynnwys incwm a buddsoddiad. Hefyd bydd y myfyrwyr a phartion eraill sydd â diddordeb eisiau deall statws y trefniadau cysylltiedig â'r ddarpariaeth a bydd y brifysgol eisiau bod yn glir am sut byddai myfyrwyr yn cael gwybod am newidiadau i'r trefniadau partneriaeth.  Dim ond pan fo trefniadau partneriaeth wedi'u cadarnhau'n bodoli wrth wneud cais ddylai prifysgolion gynnwys niferoedd myfyrwyr, a rhaid bod yn barod i gyflwyno amrywiad ar y cais/cynllun i CCAUC os/pan fydd trefniadau partneriaeth newydd yn cael eu cadarnhau.
<b>Gwybodaeth reoleiddiol ar gyfer cynlluniau ffioedd a mynediad</b>	
A allai CCAUC rannu'r cynlluniau ffioedd a mynediad yn rheoleiddiol a ffocws a chynnwys y cynllun? A ddylent i gyd fod ar gael yn gyhoeddus?	Bwriad CCAUC yw i'r holl wybodaeth reoleiddiol a rennir gyda CCAUC gael ei hystyried yn wybodaeth sensitif yn fasnachol. Ni chaiff y wybodaeth ei chyhoeddi ac ni fyddai ar gael drwy gais Rhyddid Gwybodaeth. Ffocws a chynnwys y cynllun ffioedd a mynediad yw'r wybodaeth i'r cyhoedd y bydd yn ofynnol ei chyhoeddi. Mae hyn yr un fath ag ar gyfer y cynlluniau ffioedd blaenorol.
Mewn perthynas â'r gofyniad i ddarparu manylion am strwythurau corfforedig - a yw hyn yn cynnwys unrhyw gwmnïau nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu'r addysgu?	Dylai ymgeiswyr cynlluniau ffioedd a mynediad roi manylion llawn am eu strwythur grŵp corfforedig, gan gynnwys manylion am holl gwmnïau neu sefydliadau'r grŵp, gan gynnwys is-gwmnïau, rhiant-gwmnïau / cwmnïau cynnal a mentrau cysylltiedig neu ar y cyd.
Byddai gorwel cynllunio ffioedd hirach yn cael ei ffafrio ... e.e. 3	Am ychydig flynyddoedd cyntaf y system reoleiddiol

blynedd.	newydd, bydd y cynlluniau ffioedd a mynediad yn weithredol am flwyddyn. Dim ond am hyd at ddwy flynedd oedd y ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu i'r cyfnod hwn fod. Efallai y daw rheoliadau i ddiwygio hyn.
Oes raid i CCAUC gael yr un faint o wybodaeth reoleiddiol ar gyfer y sefydliadau i gyd?	Os bydd hynny'n briodol, a gyda chaniatâd y Corff Llywodraethu, bydd CCAUC yn defnyddio gwybodaeth sydd wedi cael ei chyflwyno'n flaenorol i CCAUC gan sefydliad at ddibenion eraill.
Tabl 6 - mae'n gofyn am wybodaeth am y broses pennu cyllideb/cyfrifon rheoli. Ydych chi eisiau naratif byr neu rywbeth mwy sylweddol a seiliedig ar dystiolaeth?	Mewn perthynas â thabl 6, mae arnom angen naratif byr ar y broses pennu cyllideb a'r cyfrifon rheoli.
Tabl 3 - Rhestr o leoliadau'r Ddarpariaeth AU yng Nghymru. Ydych chi'n disgwyl cyfeiriadau cyfreithiol y sefydliad a'i bartneriaid lleol neu fanylion y campysau a'r ddarpariaeth a gyflwynir ar bob un?	Mewn perthynas â thabl 3, mae arnom angen gwybodaeth am leoliadau yng Nghymru – campws (campysau) cartref ac unrhyw bartneriaid masnachfrait.
<b>Templedi Cynllun Ffioedd a Mynediad</b>	
Ydi tablau E ac F yn Atodiad Aii (sy'n cyfeirio at bob lefel) angen cynnwys Ôl Radd Ymchwil ac Ôl Radd a Addysgir?	Rhaid i'r tablau gynnwys pob lefel, gan gynnwys Ôl Radd Ymchwil, Ôl Radd a Addysgir, yn ogystal ag AB.
<b>Grwpiau a dangynrychiolir</b>	
Oes posib i ni dargedu grwpiau a dangynrychiolir yn y sector os nad ydynt wedi'u tangynrychioli yn ein sefydliadau? Ac i'r gwrthwyneb?	Bydd sefydliadau'n gallu targedu grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch yn hytrach na dim ond grwpiau a dangynrychiolir yn eu sefydliad. Bydd yn ofynnol i sefydliadau ddangos tystiolaeth o sut maent yn cael eu tangynrychioli.
<b>Darpariaeth ran amser mewn cynlluniau ffioedd a mynediad</b>	
Pam ddylem ni ystyried myfyrwyr rhan amser fel rhan o'n dull cyffredinol o weithredu gyda'r cynllun, o gofio ei fod yn canolbwyntio ar ddarpariaeth israddedig lawn amser?	Mae canllaw Llywodraeth Cymru wedi bod yn benodol y dylid cynnwys myfyrwyr rhan amser yn y dull gweithredu cyffredinol mewn perthynas â'r cynllun. Ystyriwyd hyn mewn cynlluniau ffioedd a gymeradwywyd o dan Ddeddf 2004 wrth gyfeirio at lwybrau cynnydd.
<b>Mesurau a thargedau cynlluniau ffioedd a mynediad</b>	
Sut rydych chi'n mesur effaith y cyfan ar waith ehangu mynediad sefydliad oherwydd gall dysgwyr fynd i unrhyw SAU wedyn?	Bydd yn bwysig i sefydliadau ystyried mecanwaith ar gyfer cofnodi a monitro cyfranogwyr mewn gweithgareddau allgymorth er mwyn adrodd yn ôl ar effaith a dangos tystiolaeth o ddefnyddio incwm ffioedd.
Roeddwn yn gobeithio y gallech chi roi esboniad/esiamplau pellach o'r	Mae'r categori 'arall' wedi cael ei ddarparu ar gyfer yr hyn rydym yn ei ddisgwyl i fod yn ddarpariaeth

<p>mathau o fesurau y byddech yn disgwyl eu gweld o dan “mesurau eraill i gefnogi Cyfleoedd Cyfartal ar gyfer grwpiau a Dangynrychiolir / hybu AU, fel gwerthusiad o effeithiolrwydd cynllun ffioedd a mynediad?</p>	<p>gymharol gyfyngedig nad yw'n cyd-fynd yn glir â'r opsiynau eraill a ddarperir.</p> <p>Rydym yn annog ymgeiswyr i ddisgrifio'n glir y ddarpariaeth maent yn ei chynnwys o dan y categori 'arall' fel bod CCAUC yn gallu deall graddfa a natur y ddarpariaeth a sut bydd yn berthnasol i gyflawni amcanion yr ymgeisydd, yn ogystal â chefnogi cyfleoedd cyfartal/hybu AU.</p>
<p>Oes posib cynnwys gweithgareddau ehangu mynediad a gyllidir yn allanol yn y cynllun? Er enghraifft, efallai y bydd llawer o weithgareddau ym maes Gwyddoniaeth yn cael eu cyllido gan NSA (ni fydd yn parhau i dalu'r costau staff fwy na thebyg)?</p>	<p>Gellid disgrifio unrhyw weithgareddau ehangu mynediad a gyllidir yn allanol yn rhan cynnwys y cynllun ffioedd a mynediad. Fodd bynnag, dylai'r naratif fod yn glir bod y gweithgareddau hynny a ddisgrifir yn cael eu cyllido drwy ffynonellau ar wahân i incwm ffi (fel y rhaglen Ymgyrhaedd yn Ehangach neu NSA).</p> <p>Ni fyddem yn disgwyl i unrhyw gyllid allanol gael ei gostio yn erbyn y gweithgareddau yn nhabl B y daenlen. Yn yr un modd, byddem yn disgwyl i'r targedau a geir yn nhabl G fod yn dargedau cysylltiedig â gwariant incwm ffi yn unig. Os oedd gwariant incwm ffi'n cyfrannu tuag at dargedau neu weithgareddau a oedd hefyd yn cael eu cyllido drwy ffynonellau allanol/eraill, gallech gynnwys targedau/ gweithgareddau sy'n berthnasol i'r incwm ffi, ond rhaid bod yn glir bod incwm ffi'n cyfrannu tuag at y targedau/ gweithgareddau hynny a'u bod yn cael eu cyllido'n gyfatebol/rhannol drwy gyfrwng ffynonellau eraill o incwm.</p>
<p><b>Buddsoddiad cynlluniau ffioedd a mynediad</b></p>	
<p>A fyddai CCAUC yn ystyried goblygiadau cyllideb neu gyllid eraill wrth ystyried cyfran y buddsoddiad mewn gweithgarwch cynllun ffioedd a mynediad?</p>	<p>Mae'r fframwaith rheoleiddiol a sefydlwyd gan Ddeddf AU (Cymru) yn canolbwyntio ar incwm ffioedd hyfforddi.</p>
<p>A fydd disgwyl i ddarparwyr ymrwmo fel isafswm % o ffioedd ar gyfer bwrsariau ac ysgoloriaethau?</p>	<p>Nid oes gan CCAUC isafswm o fuddsoddiad ar gyfer bwrsariau ac ysgoloriaethau ond efallai y daw rhagor o ganllawiau gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.</p>
<p><b>Ardystio cynlluniau ffioedd a mynediad</b></p>	
<p>Pa fath o awdurdod dirprwyedig sy'n dderbyniol ar gyfer ardystio corff llywodraethu?</p>	<p>Dywed CCAUC ei bod yn ofynnol i'r corff llywodraethu ardystio unrhyw gynllun ffioedd a mynediad wedi'i iteru a gyflwynir i CCAUC. Rhaid i'r sefydliad sy'n ymgeisio am gynllun ffioedd a mynediad benderfynu ar yr holl weithdrefnau ar gyfer awdurdod dirprwyedig.</p>
<p><b>Partneriaethau Ymgyrhaedd yn Ehangach</b></p>	

Sut gellid ymgorffori strategaethau Ymgynraedd yn Ehangach yng nghynlluniau ffioedd a mynediad sefydliadau?

Bydd yn bwysig i sefydliadau ddangos ymgysylltu â phartneriaethau Ymgynraedd yn Ehangach a gwahaniaethu rhwng cyllid cysylltiedig â'r partneriaethau ac incwm ffioedd. Bydd CCAUC yn edrych ar y posibilrwydd o esblygu Ymgynraedd yn Ehangach i fod yn drefniant 'cyllid cyfatebol', gyda'r sector yn talu rhywfaint o'r gost, i gyflawni rhaniad 50/50 o bosib. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn berthnasol yn 2017/18.